



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG48092

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – Crynodeb o'r Ymatebion

**Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar Reolau Etholiadau
Lleol Drafft (Prif Ardaloedd) (Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy)
(Cymru) 2023**

Gorffennaf 2023

ISBN: 978-1-83504-385-1

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Trosolwg o'r ymatebion.....	5
Cyfrif â Llaw a Chyfrif Electronig	6
Papurau pleidleisio	7
Cwota	9
Trosglwyddo pleidleisiau dros ben	10
Eithrio Ymgeiswyr	11
Papurau pleidleisio na ellir eu trosglwyddo	12
Seddi Gwag Diwethaf.....	12
Ailgyfrif.....	13
Rhestr o'r Ymatebwyr	18

Cyflwyniad

Mae'r Senedd wedi deddfu i ganiatáu i awdurdodau lleol yng Nghymru ddewis eu system etholiadol, rhwng y Cyntaf i'r Felin neu'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn gofyn am safbwyntiau ar *Reolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy) (Cymru) 2023* (Rheolau Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy drafft), a oedd yn amlinellu sut y byddai etholiad sy'n defnyddio'r system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy yn gweithredu.

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("Deddf 2021") yn galluogi'r prif gynghorau i ddewis cynnal etholiadau yn y dyfodol gan ddefnyddio'r system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy. Daeth y darpariaethau hyn i rym ar 6 Mai 2022. Bydd prif gynghorau'n parhau i ddefnyddio'r system Cyntaf i'r Felin oni bai eu bod yn penderfynu newid yn unol â'r weithdrefn a nodir yn adrannau 8 a 9 o Ddeddf 2021.

Mae Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021 ("Rheolau 2021") yn nodi sut mae'n rhaid cynnal etholiadau i brif gynghorau lle mae'r system Cyntaf i'r Felin (neu'r system mwyafrif syml) yn cael ei defnyddio yn unig. Nid ydynt yn darparu ar gyfer cynnal etholiadau lle mae'r system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy'n cael ei defnyddio. Cafodd y Rheolau Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy drafft eu llunio i fynd i'r afael â hyn.

Bydd Rheolau 2021 yn parhau i wneud darpariaeth ynghylch y Cyntaf i'r Felin ar gyfer cynnal etholiadau mewn ardaloedd nad ydynt wedi penderfynu defnyddio'r system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy. Bydd y Rheolau Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy drafft yn diwygio Rheolau 2021 fel eu bod yn caniatáu cynnal etholiadau lle mae'r system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy yn cael ei defnyddio.

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am safbwyntiau ar **gyfrif â llaw a chyfrif electronig**, ac roedd hefyd yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- **Papurau pleidleisio** – cynllun y papur pleidleisio a sut y gallai hyn effeithio ar y ffordd y mae pobl yn pleidleisio mewn pleidlais drwy ddefnyddio Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy;
- **Newidiadau i Ffurflenni Rhagnodedig sy'n Rhoi Cyfarwyddiadau i'r Pleidleiswyr ynghylch Sut i Bleidleisio** – a yw'r cyfarwyddiadau hyn yn ddigon clir;

- **Cwota** – y dull i'w ddefnyddio wrth gyfrifo'r cwota;
- **Trosglwyddo pleidleisiau dros ben** – sut mae dewisiadau pleidleiswyr yn cael eu trosglwyddo unwaith y bydd ymgeisydd sydd â'r nifer lleiaf o bleidleisiau wedi cael ei eithrio neu wedi cyrraedd y cwota ac wedi cael ei ethol;
- **Eithrio Ymgeiswyr** – y rheolau a fydd yn berthnasol pan fydd ymgeisydd sydd â'r nifer isaf o bleidleisiau'n cael ei eithrio;
- **Papurau Pleidleisio na ellir eu trosglwyddo** – pan ystyrir nad oes modd trosglwyddo'r papurau pleidleisio ;
- **Y Seddi Gwag Diwethaf** – y ddarpariaeth ar gyfer llenwi'r seddi gwag diwethaf;
a
- **Ailgyfrif** – y ddarpariaeth a wneir er mwyn i ymgeiswyr neu asiantiaid etholiadol wneud cais am ailgyfrif pleidleisiau.

Trosolwg o'r ymatebion

Cafwyd cyfanswm o 32 o ymatebion gan sefydliadau ac unigolion.

Tabl 1: Nifer yr ymatebwyr yn ôl math ar draws holl fformatau'r arolwg

Math o Ymatebydd	Nifer yr ymatebwyr
Unigolyn	16
Sefydliad	16
Cyfanswm	32

Mae rhestr o'r holl ymatebwyr wedi'i chynnwys ar dudalen 17.

Crynodeb o'r Ymatebion i Gwestiynau'r Ymgynghoriad

Gellir gweld y papur ymgynghori [yma](#) ac mae'n cynnwys gwybodaeth gefndirol a chyd-destun pob un o'r cwestiynau a ofynnwyd.

Cyfrif â Llaw a Chyfrif Electronig

Gofynnwyd am safbwyntiau ar farn Llywodraeth Cymru y dylid mabwysiadu trefn o gyfrif â llaw gyda system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy ar hyn o bryd. Gofynnwyd hefyd am safbwyntiau ar ystyried cyfrif electronig yn y dyfodol.

Cwestiwn 1a

Ydych chi'n cytuno y dylid drafftio'r Rheolau Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy ar sail cyfrif â llaw yn unig?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 30

Roedd 15 o blaid hepgor cyfrif electronig, ac roedd 15 yn erbyn.

Dywedodd ymatebwyr a oedd o blaid eu bod yn credu bod Cyfrif electronig yn gymhleth, a'i fod yn cynyddu'r siawns o dwyll etholiadol. Awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai cael dau ddull cyfrif gwahanol ar waith achosi cymhlethdod a dryswch. Nododd y Comisiwn Etholiadol yr heriau o gaffael system gyfrif electronig ac ansicrwydd ynghylch nifer y Cynghorau sy'n mabwysiadu Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy fel rhesymau dilys dros gyfrif â llaw i ddechrau. Roedd hefyd yn darparu gwybodaeth am faterion ymarferol i'w hystyried wrth gyfrif â llaw mewn etholiadau Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy.

Awgrymodd ymatebwyr a oedd yn erbyn fod cyfrif electronig yn gyflymach ac yn fwy cywir. Awgrymodd rhai y dylid gweithio'n agos gyda Llywodraeth yr Alban yn ystod y cyfnod gweithredu. Awgrymodd rhai ymatebwyr, gan gynnwys Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, y dylid cynnwys y ddau opsiwn yn y Rheolau er mwyn rhoi hwblygrwydd i swyddogion canlyniadau ystyried amgylchiadau lleol.

Cwestiwn 1b

A ddylid paratoi rheolau sy'n caniatáu cyfrif electronig ar gyfer etholiadau yn y dyfodol, mewn pryd ar gyfer etholiadau lleol a gynhelir ar ôl 2027?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 29

Roedd 24 o ymatebwyr o blaid gweithredu mewn pryd ar gyfer etholiadau ar ôl 2027 ac roedd 5 yn erbyn.

Dywedodd ymatebwyr a oedd o blaid y dylid rhoi Cyfrif electronigar waith yn fuan er mwyn lleihau nifer y camgymeriadau dynol. Roedd ymatebwyr a oedd yn erbyn yn teimlo bod y posibilrwydd o ddefnyddio cyfrif pleidleisiau electronig yn bryder sylweddol. Awgrymodd rhai ymatebwyr yn erbyn ac o blaid y dylai Llywodraeth Cymru ariannu cyfrif electronig i gefnogi awdurdodau lleol.

Papurau pleidleisio

Cwestiwn 2

Ydych chi'n cytuno na ddylid newid y gofyniad presennol i restru ymgeiswyr yn nhrefn yr wyddor yn ôl cyfenw?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 29

Roedd 19 o ymatebwyr o blaid cadw'r sefyllfa bresennol ac roedd 10 yn credu y dylid gwneud newidiadau.

Dywedodd ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r trefniant presennol y gallai newidiadau beri dryswch i bleidleiswyr ac y byddai'n anodd i weinyddwyr. Codwyd pryderon ychwanegol hefyd ynghylch sut gallai'r newidiadau hyn effeithio ar y rheini sy'n rhannol ddall.

Roedd y rheini a oedd yn cefnogi newidiadau o'r farn mai dewis cyfenwau ar hap fyddai'r unig ffordd o osgoi rhagfarn o ran pleidleisio a sicrhau tegwch i bob ymgeisydd sy'n sefyll mewn etholiad.

Cwestiwn 3

Ydych chi'n cytuno bod y canllawiau diwygiedig i bleidleiswyr yn egluro'n glir sut y dylent roi marc ar y papur pleidleisio mewn etholiad o dan drefn Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy? Os na, awgrymwch welliannau.

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 29

Roedd 19 o'r ymatebwyr yn cytuno a 10 yn anghytuno.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo bod y diwygiadau a wnaed i'r canllawiau yn egluro'n glir sut y dylid marcio'r papur pleidleisio ar gyfer Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy.

Dywedodd y Comisiwn Etholiadol fod y cyfarwyddiadau drafft i bleidleiswyr yn glir ac yn cyd-fynd â'r iaith a ddefnyddir eisoes yn etholiadau Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban.

O ran y canllawiau i bleidleiswyr a gyflwynir yn atodlenni 2-8, awgrymodd y Gymdeithas Diwygio Etholiadol, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, Dr Gilmour a Chyngor Sir Caerfyrddin ddiwygiadau amrywiol i wneud y geiriad yn gliriach ac yn haws ei ddeall.

Roedd y pwyntiau a godwyd yn cynnwys:

- a) dylai'r gair "rhif" ddisodli "ffigur" yn y canllawiau, ar gardiau pleidleisio ac mewn datganiadau pleidlais drwy'r post;
- b) dylai pennawd y papur pleidleisio gynnwys enw'r ward;
- c) dylai'r gair "choices" ddisodli'r gair "preferences" yn Saesneg ar gyfer "dewisiadau";

d) Yn y cyfarwyddiadau sy'n nodi: "rhowch rif 1 yn y blwch wrth ymyl eich dewis cyntaf", byddai'n well nodi'n benodol "yn y blwch pleidleisio" i annog pobl i beidio â marcio dewisiadau ar arwyddluniau'r pleidiau¹;

e) dylid atgyfnerthu'r neges "defnyddiwch RIFAU yn unig" ar y papur pleidleisio ac; f) dylid gosod y gair "RHIFAU" yn union uwchben y blychau pleidleisio er mwyn osgoi defnyddio "X" i farcio papur pleidleisio Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy, sydd, yn y gorffennol, wedi arwain at lawer o bapurau pleidleisio'n cael eu gwrthod.

Cwota

Y cwota yw nifer y pleidleisiau sy'n ddigonol i sicrhau ethol ymgeisydd. Gofynnem am safbwyntiau ar ddewis cwota Droop pryd bynnag y cynhelir etholiadau'r prif gynghorau gan ddefnyddio'r system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy yng Nghymru. Mae Rheolau 60H a 64L yn nodi sut y cyfrifir y cwota.

Cwestiwn 4a

Ydych chi'n cytuno â'n penderfyniad ni i ddewis cwota Droop?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 27

Roedd 24 yn cytuno a 3 yn anghytuno.

Dywedodd ymatebwyr a oedd yn cytuno ei bod yn ymddangos bod y system yn deg a'i bod eisoes yn cael ei phrofi mewn mannau eraill. Mae hefyd yn sicrhau bod ymgeiswyr sy'n cael cyfran deg o'r pleidleisiau'n cael eu hethol rhag i grwpiau bach ddominyddu'r canlyniadau. Roedd ymatebwyr a oedd yn anghytuno yn dadlau ei fod yn rhy gymhleth ac y gallai eithrio ymgeiswyr ar waelod y rhestr fesul un nes bod digon o ymgeiswyr wedi sicrhau 50%.

Roedd ymatebwyr hefyd yn dweud bod y cwota Droop yn cael ei ddefnyddio bellach yn y rhan fwyaf o systemau etholiadol Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy, ac mae wedi disodli Cwota Hare yn gyffredinol. Roedd ymatebwyr, gan gynnwys Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, yn cefnogi'r cwota Droop gan ei fod eisoes yn cael ei

¹ mae dau flwch wrth ymyl pob ymgeisydd y cyntaf yn cynnwys arwyddlun y blaid - lle bo hynny'n briodol

ddefnyddio ar gyfer etholiadau Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy eraill yn y DU (yr Alban a Gogledd Iwerddon) ac yn eang ar draws y byd.

Cwestiwn 4b

Ydych yn cytuno bod y camau ar gyfer cyfrifo'r cwota fel y'u nodir yn Rheol 60H a 64L yn ddigon clir?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 25

Roedd 19 yn cytuno a 6 yn anghytuno.

Roedd y Comisiwn Etholiadol a Chymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol yn cytuno. Dywedodd yr Ymatebwyr yn ôl fod y Rheolau'n glir, ond gellid addasu'r disgrifiad o'r camau i'w gwneud yn gliriach. Dywedodd ymatebwyr hefyd y byddent yn croesawu canllawiau ychwanegol ar yr hafaliad (Rheol 60H). Awgrymodd rhai, gan gynnwys Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, y dylid cynnwys yr hafaliad ac enghraifft o sut mae'n gweithio yn y Rheolau i'w gwneud yn haws ei deall.

Trosglwyddo pleidleisiau dros ben

Gofynnwyd am safbwyntiau ar y ffordd y mae dewisiadau pleidleiswyr yn cael eu trosglwyddo (dull trosglwyddo). Mae'r Rheolau drafft yn darparu ar gyfer cyfrif â llaw, ac felly mae'r dull Gregory yn cael ei argymhell.

Cwestiwn 5

Ydych chi'n cytuno bod y rheolau ynghylch trosglwyddo pleidleisiau dros ben yn ddigon clir?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 27

Roedd 14 yn cytuno a 13 yn anghytuno.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno bod y rheolau perthnasol ynghylch trosglwyddo pleidleisiau dros ben yn ddigon clir a dealladwy; roedd eraill yn dadlau bod y camau'n aneglur a gellid egluro'r mecanwaith "pleidleisiau dros ben" ac "aiddosbarthu pleidleisiau".

Awgrymodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol fod croeso cyffredinol i ganllawiau pellach i ddarparu dadansoddiad manwl ar gyfer pob cam ac enghreifftiau

ymarferol (ee gellid defnyddio taflenni canlyniadau data Gogledd Iwerddon o 2022 fel enghraifft gan eu bod nhw'n dangos y cyfrifiadau a'r penderfyniadau a wnaed ar bob cam – [‘The Electoral Office of Northern Ireland – EONI’](#)). Cynigiodd un ymatebydd y dylid newid geiriad y Rheolau er mwyn bod yn fwy manwl, gan mai'r "papurau pleidleisio" oedd yn cael eu trosglwyddo yn hytrach na'r "pleidleisiau".

Cwestiwn 6

Ydych chi'n cytuno na ddylid trosglwyddo pleidleisiau dros ben os na all wneud unrhyw wahaniaeth o bwys i ragolygon yr ymgeisydd sy'n parhau â'r nifer isaf o bleidleisiau?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 28

Roedd 19 yn cytuno a 9 yn anghytuno.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig. Awgrymodd y Comisiwn Etholiadol y byddai hyn yn helpu i symleiddio'r broses ar gyfer Swyddogion Canlyniadau, gan osgoi trosglwyddiadau diangen yn unol â'r darpariaethau presennol yng Ngogledd Iwerddon sy'n ymwneud â throsglwyddo pleidleisiau dros ben.

Dim ond ychydig o ymatebwyr a oedd yn dadlau y gallai'r system hon gael effaith negyddol ar dryloywder y broses, ac roeddent hefyd yn mynegi pryderon ynghylch swyddi gwag achlysurol. Yn hyn o beth, cynigiodd y Gymdeithas Diwygio Etholiadol ystyried argymhelliad y [Panel Arbenigol ar Adroddiad Diwygio Etholiadol y Cynulliad](#) i ddefnyddio cyfrif yn ôl ac ailddrafftio'r rheolau sy'n ystyried yr effaith ar swyddi gwag achlysurol.

Eithrio Ymgeiswyr

Gofynnwyd am safbwyntiau ar eithrio ymgeiswyr sydd â'r nifer isaf o bleidleisiau.

Cwestiwn 7

Ydych chi'n cytuno bod y rheolau ynghylch eithrio ymgeiswyr a throsglwyddo pleidleisiau wedi hynny'n ddigon clir?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 26

Roedd 22 yn cytuno a 4 yn anghytuno.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod y rheolau'n glir; ond roeddent yn gofyn am arweiniad pellach oherwydd cymhlethdod y pwnc. Awgrymodd un ymatebydd ddryswch rhwng y termau: "pleidlais" a "papur pleidleisio".

Papurau pleidleisio na ellir eu trosglwyddo

Gofynnwyd am safbwyntiau ar pan ystyrir nad oes modd trosglwyddo papur pleidleisio.

Cwestiwn 8

Ydych chi'n cytuno bod y Rheolau Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy drafft yn ddigon clir ynghylch yr amgylchiadau pan na fydd modd trosglwyddo papur pleidleisio?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 26

Roedd 18 yn cytuno ac 8 yn anghytuno.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod y rheolau'n glir ond roeddent o blaid cael rhagor o arweiniad. Dywedodd y Gymdeithas Diwygio Etholiadol y dylai'r amgylchiadau pan na fydd modd trosglwyddo papur pleidleisio hefyd gynnwys yn benodol lle nad oes dewis wedi'i nodi ar bapur pleidleisio. Fodd bynnag, mae hyn eisoes wedi'i gynnwys yn adrannau 64S(4) a 64T(3) y Rheolau drafft.

Seddi Gwag Diwethaf

Gofynnwyd am safbwyntiau ar lenwi'r swyddi gwag diwethaf. Bwriad hyn yw sicrhau bod rhaid i'r swyddog canlyniadau barhau i gyfrif pan na fyddai unrhyw bwrpas gwneud hynny.

Cwestiwn 9

Ydych chi'n cytuno bod y Rheolau Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy drafft yn ddigon clir ynghylch y ddarpariaeth ar gyfer llenwi'r seddi gwag diwethaf?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 27

Roedd 22 yn cytuno a 5 yn anghytuno.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod y rheolau'n glir, ond dywedodd ymatebwyr nad oedd yn cytuno fod angen rhagor o eglurder mewn perthynas â swyddi gwag achlysurol. Dywedodd ymatebwyr hefyd y byddent yn croesawu rhagor o ganllawiau.

Ailgyfrif

Gofynnwyd am safbwyntiau ar ailgyfrif. Mae'r pwynt hwn yn wahanol iawn i Reolau 2021, gan fod y Rheolau Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy drafft yn gwneud darpariaeth i ymgeiswyr neu asiantiaid etholiadol wneud cais am ailgyfrif pleidleisiau.

Cwestiwn 10

Ydych chi'n cytuno, mai dim ond yng nghyswllt cam diwethaf y cyfrif a gwblhawyd yn unig y gellir gofyn am ailgyfrif mewn etholiadau a gynhelir sy'n defnyddio Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 28

Roedd 19 yn cytuno a 9 yn anghytuno.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion, ond roedd rhai ymatebwyr yn dadlau y byddai'n rhy gymhleth ac yn cymryd gormod o amser. Hefyd, gallai gwall yn gynharach yn y broses arwain at ganlyniad agos neu un y mae anghydfod yn ei gylch yn nes ymlaen.

Tynnodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol sylw at y tebygrwydd rhwng y cynnig hwn ac etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a oedd yn arfer rhedeg gyda'r system pleidleisio atodol. Dim ond ar y pwynt hwnnw y gallai Swyddog Canlyniadau ailadrodd y broses cyfrif cam cyntaf ac ni allai hyn gael ei wneud yn ddiweddarach yn y broses.

Dywedodd y Comisiwn Etholiadol hefyd fod hwn yn ddull gweithredu rhesymol. Yr adborth oedd bod Rheolau 60T a 64X hefyd yn unol â'r rheolau presennol sy'n ymwneud â cheisiadau am ailgyfrif yng Ngogledd Iwerddon, lle byddai ailgyfrif etholiad hefyd yn anymarferol wrth ystyried cyfrif â llaw.

Dywedodd y Gymdeithas Diwygio Etholiadol y gallai'r angen am ailgyfrif fod yn ganlyniad i'r penderfyniad i ddefnyddio cyfrif â llaw yn unig ar gyfer etholiadau

Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy yng Nghymru. Yn ei barn hi, er bod y system hon yn gweithio'n llwyddiannus yng Ngweriniaeth Iwerddon a Gogledd Iwerddon, mae pryderon o hyd ynghylch canfyddiad ymgeiswyr a phleidleiswyr ynghylch tryloywder canlyniadau'r etholiadau.

Y GYMRAEG

Cwestiwn 11:

Hoffem glywed eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion ar gyfer y rheolau Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy drafft yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau hyn yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 16

Roedd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol yn cytuno na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Er enghraifft, argymhellwyd bod Llywodraeth Cymru yn cysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg yn ogystal â grwpiau rhanddeiliaid perthnasol eraill megis Grŵp Cynghori ar Ddeddfwriaeth Cymru, Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru a Gweithgor Ymarferwyr Etholiadol Cymru i ddarparu arbenigedd yn y maes penodol hwn. .

Rhoddodd Civica Express adborth ar ofynion TG penodol os bydd e-gyfrif yn cael ei roi ar waith yn y dyfodol. Dywedodd y gallai fod angen datblygiadau TG ychwanegol ar gyfer systemau e-gyfrif i brosesu papurau pleidleisio dwyieithog mwy ac argymhell ymgynghori â chyflenwyr offer cyfrif electronig Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy.

Cwestiwn 12:

Eglurwch hefyd, os gwelwch yn dda, sut rydych yn credu y gall y rheolau gael eu newid er mwyn cael effeithiau positif neu gynyddu effeithiau positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 10

Awgrymodd Plaid Cymru y dylai'r dogfennau a'r cyhoeddusrwydd ynghylch gweithredu'r system newydd fod ar gael yn y ddwy iaith.

Tynnodd y Comisiwn Etholiadol sylw at yr angen am ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus cyn unrhyw etholiadau lleol sy'n cael eu cynnal o dan system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy – bydd angen cyflwyno'r rhain yn gwbl ddwyieithog.

Ychwanegodd y bydd hefyd angen i wasanaethau etholiadol lleol ystyried yr amser y byddai ei angen i gyflwyno dogfennau a deunyddiau newydd yn ddwyieithog.

MATERION YCHWANEGOL

Cwestiwn 13:

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig sydd heb gael eu trafod yn benodol, mae croeso i chi ddefnyddio'r lle hwn i'w nodi.

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 14

Dyma'r materion ychwanegol a godwyd gan ymatebwyr.

- **Amseru'r cyfrif ledled Cymru**

Dyweddodd Cyngor Sir Caerfyrddin yn ôl y dylai cyfrif Pleidleisiau Sengl Trosglwyddadwy ddechrau am 9am y diwrnod canlynol, heb unrhyw gyfrif yn digwydd dros nos oherwydd hyd y broses – byddai hyn yn sicrhau cysondeb yng Nghymru.

- **Canlyniadau anfwriadol rhedeg dwy system etholiadol yng Nghymru mewn un diwrnod.**

Dyweddodd Cyngor Sir Caerfyrddin y bydd y Rheolau'n creu dwy system bleidleisio a fydd yn cael eu defnyddio ar un diwrnod. Gallai hyn arwain at ddryswch ymysg etholwyr gyda'r risg o gynnydd sylweddol yn nifer y pleidleisiau sy'n cael eu difetha (yn enwedig yn y system bleidleisio drwy'r post).

- **Cyfrif electronig**

Roedd nifer o'r ymatebwyr yn ffafrio cyfrif electronig ac yn teimlo y gallai cyfrif â llaw fod yn gymhleth, yn cymryd llawer o amser, yn gofyn am lawer o adnoddau ac yn gostus iawn i bob awdurdod lleol. Fodd bynnag, roedd yr ymatebwyr yn deall y bydd

caffael system o'r fath yn dibynnu ar faint o brif gynghorau sy'n symud i system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy ac felly arbedion maint. Roeddent hefyd yn cydnabod yr anawsterau posibl gyda dau fath o gyfrif yn gweithredu ar yr un pryd.

Dywedwyd bod awdurdodau lleol eisoes yn wynebu heriau enfawr o ran denu staff i gefnogi'r broses etholiadau, eu gallu i sicrhau lleoliadau cyfrif yn ogystal â'r pwysau cost ychwanegol y byddai hyn yn ei greu.

Rhoddodd Cyngor Sir Ynys Môn adborth hefyd oherwydd y penderfyniad i fabwysiadu cyfrif â llaw yn unig, gellid ystyried y rheolau fel rhai dros dro, hyd nes y bydd opsiynau gwell ar gael.

- **Hyfforddiant**

Awgrymodd rhai ymatebwyr, gan gynnwys Cyngor Sir Ynys Môn, y dylai unrhyw brif gyngor sy'n penderfynu symud i system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy gael cefnogaeth a hyfforddiant a chymorth sylweddol.

- **Gweithredu**

Tynnodd Dr Gilmour sylw at y ffaith y byddai cymesuredd ac amrywiaeth y gynrychiolaeth yn bwysig wrth weithredu system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy.

Gellir asesu cymesuredd cynrychiolaeth drwy gymharu pleidleisiau dewis cyntaf ar gyfer ymgeiswyr pleidiau â nifer y seddi a enillwyd gan y pleidiau perthnasol gan fod y blaid yn un o'r prif benderfynyddion o ran dewis ymgeiswyr gan bleidleiswyr. Nid yw'n hawdd asesu amrywiaeth y gynrychiolaeth, ond y diffyg amrywiaeth mwyaf amlwg yw tangynrychiolaeth menywod, er mai menywod yw mwyafrif yr etholwyr.

- **Didoli papurau pleidleisio**

Awgrymodd Dr Gilmour gyfeiriadau yn y Rheolau drafft at ddidoli'r papurau pleidleisio yn "grwpiau," ee, roedd Rheol 64K yn amhriodol. Awgrymodd y dylid defnyddio'r termau "parseli" ac "is-barseli".

- **Papurau pleidleisio sy'n cael eu gwrthod - Rheol 60E(e)**

Dywedodd Dr Gilmour y byddai'n ddymunol nodi a chofnodi'r papurau pleidleisio sy'n cael eu gwrthod oherwydd eu bod "heb eu marcio" (gwag) ar wahân i'r rheini sy'n cael eu gwrthod oherwydd eu bod "yn annilys oherwydd ansicrwydd." Fel arfer, mae'r cyntaf yn cael ei gyflwyno gan bleidleiswyr sy'n gwneud rhyw fath o brotest

gwleidyddol, ac mae'r un olaf fel arfer yn ganlyniad rhyw gamgymeriad a wneir gan y pleidleisiwr. Bydd gwahanu'r ddau gategori hyn o wrthod yn ddefnyddiol wrth ddadansoddi'r rhesymau dros wrthod. Byddai hefyd yn ddymunol cael cymaint o wybodaeth â phosibl am gamgymeriadau pleidleiswyr i helpu i lywio datblygiad ymgyrchoedd gwybodaeth yn y dyfodol gan Swyddogion Canlyniadau a'r Comisiwn Etholiadol.

Y Camau Nesaf

Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud rhai newidiadau bach i'r Rheolau drafft i ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Er enghraifft, bydd eglurder a hygyrchedd y testun ar bapurau pleidleisio a ffurflenni eraill yn cael eu gwella, gan ystyried rhai o'r awgrymiadau defnyddiol gan ymatebwyr.

Yn ogystal, byddwn yn gweithio gyda'r Comisiwn Etholiadol a rhanddeiliaid eraill ar ganllawiau pellach i gefnogi'r broses o weithredu'r Rheolau.

Y dyddiad cau i awdurdodau lleol benderfynu mabwysiadu'r bleidlais sengl drosglwyddadwy ar gyfer etholiad 2027 yw 15 Tachwedd 2024. Y bwriad yw y dylai'r Rheolau ddod i rym yn hydref 2023.

Rhestr o'r Ymatebwyr

Cafwyd ymatebion gan y sefydliadau a'r unigolion canlynol.

1	Sefydliad	Ffederasiwn Cwlwm	David Hytch
2	Sefydliad	Castell-nedd Port Talbot	Rhys George
3	Sefydliad	Pupils 2 Parliament	Dr Roger Morgan OBE
4	Sefydliad	Cyngor Tref Llandrindod ac aelod o Blaid Cymru	Sian Meredudd
5	Sefydliad	Caerffili	Dave Beecham
6	Sefydliad	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	Caroline Genever-Jones
7	Sefydliad	Cyngor Gwynedd	Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau
8	Sefydliad	Cyngor Sir Caerfyrddin	Wendy S Walters

1	Sefydliad	Ffederasiwn Cwlwm	David Hytch
9	Sefydliad	Plaid Cymru	G. Day Swyddog Gweithredol Dros Dro
10	Sefydliad	Cyngor Sir Ceredigion	Lowri Edwards
11	Sefydliad	Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol	Angela Holden
12	Sefydliad	Cyngor Sir Ynys Môn	Dyfan Sion
13	Sefydliad	Y Gymdeithas Diwygio Etholiadol	Jess Blair
14	Sefydliad	Y Comisiwn Etholiadol	Tom Davies
15	Sefydliad	Civica Express	Sam Tweedale
16	Unigolyn		Kenneth MacArthur
17	Unigolyn		Joanne Campbell
18	Unigolyn		A Goff
19	Unigolyn		Gareth Parry
20	Unigolyn		David Hytch
21	Unigolyn		Yr Athro Emeritus Denis Mollison
22	Unigolyn		Dr Gilmour

Hefyd, roedd 10 o unigolion yn dymuno aros yn ddiennw.